



Calonnau Iachusol



Amgylchedd chwarae cefnogol dwyieithog, ar gyfer plant a'u theuluoedd/gofalwyr sy wedi dioddef o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

Dewch i dderbyn cefnogaeth i chi a'ch plant, mewn amgylchedd cynhwysol a cyfeillgar, tra bod eich plant yn cymryd rhan mewn chwarae therapiwtig gyda staff proffesiynol hyfforddedig.

A supportive bilingual play environment, for children and their families/carers that have suffered from Adverse Childhood Experiences.

Come and receive support for you and your children, in an inclusive friendly environment, while your children engage in therapeutic play with fully trained professional staff.



Stiwdios mewn Maesteg a Phen y Bont, Dydd Llun i Wener 9.30yb -1.00yp

Studios in Maesteg and Bridgend, Monday to Friday 9.30am-1.00pm

Galwch Cheryl am mwy o wybodaeth 07538124975

Call Cheryl for more information 07538124975



"Pan rydyn ni'n dechrau gweithio gyda'n gilydd y mae'r iachâd go iawn yn digwydd." – Hume (Diffynwyd mewn Newby, 2023)

"It's when we start working together that the real healing takes place." – Hume (Cited in Newby, 2023)

Rhan 1

Y cysyniad busnes a ddewiswyd yw creu amgylchedd chwarae dan do, gyda mynediad i ofod awyr agored. Pwrpas yr amgylchedd hwn, yw darparu profiadau chwarae therapiwtig i blant sy wedi dioddef o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ai gofalwyr, gyda therapyddion chwarae profiadol.

Yn ôl lechyd Cyhoeddus Cymru (dim dyddiad), mae tua hanner poblogaeth Cymru wedi dioddef o leiaf un profiad plentyndod andwyol, ac adrodda Uned Atal Trais (2024) erbyn oed 18, mae 14% o'r boblogaeth wedi profi nifer o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

Datgan Frawley a Dillman Taylor (2024) a Manalew *et al.* (2022) wrth i blant dioddef o brofiadau plentyndod niweidiol, mae hwn gallu effeithio datblygiad niwrobeiolegol, academiaidd, emosiynol, cymdeithasol, llythrennedd ac iaith. Ymhelaetha Wang *et al.* (2023) gyda'r farn hyn, gan ychwanegu bod y profiadau hyn gallu cael effaith gydol oes ar lesteirio iechyd meddwl, corfforol ac ymddygiadol.

Yn ychwanegol, mae Mohammadi *et al.* (2023) a Heerman *et al.* (2022) yn sicr bod gwytnwch plant hefyd yn cael ei effeithio, ac oherwydd hyn mae tebygolrwydd uwch o hunanladdiad plentyn, chamddefnyddied o sylweddau yn ystod plentyndod a gordewdra. Fodd bynnag, dadleua lechyd Cyhoeddus Cymru (2019, t.40) er bod hyfforddiant ar y mater hwn ar gael i'r rhai sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus, doedd hwn ddim yn trosi'n gamau gweithrediad i helpu cefnogi atebion neu fesurau atal.

Gan ystyried y wybodaeth hon, gellid un nodi angen ymwybyddiaeth gyffredinol yn y maes hwn, er mwyn i oedolion gallu helpu cefnogi plant i reoli a lliniaru eu trawma.

Wrth fabwysiadu therapi chwarae sy'n canolbwyntio ar y plentyn, maent yn defnyddio'r iaith naturiol plant i ddarparu amgylchedd therapiwtig, lle mae'r therapydd chwarae gallu hwyluso'r ystyriaeth ar rwystrau'r plentyn i ddatblygiad a mecanweithiau ymdopi (Ray *et al.*, 2022). Cytuna Brown a Lynch (2023) gyda'r rhagolwg hyn, a dyweda bod therapi chwarae gallu cael ei defnyddio i ffynnu sgiliau datblygu sylfaenol y plentyn, fel cysylltedd cymdeithasol â chyfoedion, creu strategaethau datrys problemau creadigol newydd a llunio syniadau a meddyliau i'w dadansoddi.

At hyn, maent yn argyhoeddedig bod angen amrywiaeth helaeth o adnoddau chwarae i helpu'r datblygiad y plentyn, fel deunyddiau creadigol ac artistig, chwarae dramatig, adeiladu a byd bach. Fodd bynnag, rhybuddia Koukourikos *et al.* (2021) i therapi chwarae fod yn effeithiol, mae angen safon uchel o wybodaeth ddamcaniaethol gan y therapyddion i sicrhau gweithrediad cywir ar gyfer anghenion y plentyn.

Gan ystyried y dystiolaeth uchod, bydd yr amgylchedd yn llawn o adnoddau profedig sy'n effeithiol ar gyfer therapi chwarae er mwyn cefnogi datblygiad cyfannol y plentyn. At hyn, bydd y therapyddion chwarae cyflogedig gyda phrofiad cynhwysfawr yn y blynyddoedd cynnar a therapi, i sicrhau gweithrediad addas a gywir i'r anghenion unigryw'r plentyn. I ddilysu hyn, dyweda Huertas-Abril a Gomes-Parra (2020, t.203-206) ac Emilia (2023), gellir therapi chwarae ei ystyried yn ataliol i gefnogi datblygiad cyfannol y plentyn, yn enwedig wrth integreiddio tueddiadau datblygiadol plant. Serch hynny, dadleua Francis *et al.* (2022) bod tystiolaeth annigonol o'r effeithiolrwydd o chwarae therapi ar ddatblygiad cyfannol, oherwydd y mwyafrif o'r astudiaethau hyn wedi canolbwyntio ar ddatblygiad cyfathrebu, cymdeithasol a sgiliau iaith.

Yn ychwanegol, bydd cefnogaeth broffesiynol ar gael i'r teuluoedd y plentyn o staff cymwys hyfforddedig. Dyweda Hughes *et al.* (2023) bod profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ganddo'r ddawn i achosi cyfyngder i'r gofalwyr a theuluoedd, ac yn gysylltiedig yn gryf â myrdd o ganlyniadau negyddol i'r rhiant a'r plentyn.

I ychwanegi at hyn, creda Conn *et al.* (2018) er bod nifer o astudiaethau wedi dangos cysylltiad rhwng tramorwr a magu gwael, rheswm dros hyn gallu bod oherwydd y rôl hollbwysig o swyddogaethau gweithredol wrth fagu plant, a'r abled i fynychu ac ymateb yn gywir i anghenion y plentyn. Mae Wurster *et al.* (2020) yn ystyried safbwynt pwysig arall, sef yr effaith o ofalwyr gyda phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, ar effaith ar fagu plant a'r berthynas gyda'r plentyn. Noda Wurster *et al.* bod y sefyllfa hon gallu effeithio'r datblygiad cymdeithasol-emosiynol y plentyn, oherwydd iselder sensitifrwydd gofalwyr a'r posibilrwydd o fod yn emosiynol ansefydlog.

Fodd bynnag, dadleua Xu *et al.* (2023) er bod iechydd meddwl gofalwyr yn hanfodol i ddatblygiad iachus y plentyn, mae tystiolaeth gyfyngedig ar effaith o hyn ar iechydd

ymddygiad plant. Maent yn ehangu ar hyn, gan nodi bod iechyd meddwl positif o'r gofalmwr y plentyn gallu helpu i atal effeithiau negyddol o brofiadau niweidiol, oherwydd y datblygiad o wytnwch trwy brofi perthnasau meithringar ac ymatebol.

Rhan 2

Ar hyn o bryd, mae therapi chwarae grŵp yn bodoli, lle mae'r presenoldeb o un i ddau blentyn eraill yn darparu cyfleoedd i'r plant weithredu fel cymorth therapiwtig i'w gilydd, a datblygu perthnasau gyda'r therapydd ac eraill (Blalock *et al.* 2019).

Cydsyniodd Zarra-Nezhad, Pakdaman a Moazami-Goodarzi (2023) a Stutey *et al.* (2020) gyda'r pwysigrwydd o'r math hyn o therapi chwarae, gan nodi bod nifer o blant gyda datblygiad emosiynol a chymdeithasol cyfyngedig yn aml yn cyflwyno anawsterau megis fel osgoi cyswllt rhyngbersonol, anhawster cynnal a chychwyn chwarae, rhyngweithiad o ansawdd isel gyda chyfoedion a phrofi tristwch ac unigrwydd eithafol. At hyn, noda Zarra-Nezhad Pakdaman a Moazami-Goodarzi bod sgiliau emosiynol a chymdeithasol yn hanfodol ar gyfer datblygiad iachus cyfannol plant.

Fodd bynnag, dadleua Blalock, Lindo a Ray (2019a) oherwydd diffyg ymchwil yn y maes hwn o therapi chwarae, mae mwy o ymchwil angen ar y cysylltiad o gymwyseddau emosiynol cymdeithasol a therapi chwarae grŵp angen i ddadansoddi ei effeithiolrwydd. Yn ychwanegol, rhybuddia Cheng a Ray (2016) bod rhwystrau rhag defnyddio dull therapi grŵp yn gynnwys diffyg adnoddau, diffyg cymhwysiad priodol a methiant i roi sylw i anghenion unigol y plant.

Gan ystyried y dystiolaeth uchod, i sicrhau cynwysoldeb i bob plentyn a'u gofalwr bydd holiadur yn cael ei gwblhau cyn iddynt ddechrau at yr amgylchedd therapiwtig. Yn ôl Lambert (2019, t.1-2), gan ddefnyddio holiadur i gasglu data, mae hwn yn caniatáu swm mawr o ddata gael ei gasglu o fewn cyfnod byr o amser. Bydd yr holiadur yn cael ei gynllunio gan weithwyr proffesiynol, i osgoi atal casgliad o wybodaeth a data anghywir (Wyse *et al.* 2017, t.640-641).

Bydd y wybodaeth yn cael ei rheoli yn unol â'r Data Protection Act (2018), gan swyddog diogelu data dynodedig, ac yn cael ei storio o dan arweiniad GDPR (dim dyddiad), gan ddarparu diogelwch priodol o'r data ar lein, gan amgryptio'r ffeiliau i osgoi prosesu anawdurdodedig ac anghyfreithlon.

Gan ddarparu therapi i ofalwyr a phlant yn yr un amgylchedd, gellid un nodi bod y rhagolwg busnes hwn yn unigryw, a gan ystyried nifer y plant ac oedolion sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, gellid un arsylwi galw am hyn yn y gymuned. Ymhellach, creda Rides At the Door a Shaw (2023) wrth i gymunedau

ymgolli mewn profiadau therapiwtig rheolaidd a dwys, mae hwn gallu hyrwyddo lles ac iechyd meddwl cymunedol ac unigol, yn enwedig wrth ystyried effeithiau o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. At hyn, maent yn argyhoeddedig bod iachau angen cymunedau cyfan, rhaglenni a systemau i greu newid iachâd, ac yn amlygu'r ffaith bod iachau yn broses tymor hir, sy'n anodd wrth ddioddef o straen, trawma, colled a galar.

Noda Hays-Grudo a Morris (2020, t.47-48) a Hertler *et al.* (2021) bod profiadau niweidiol gallu cael effeithiau andwyol ar ddatblygiad plant, gan effeithio'r datblygiad ymennydd trwy'r rhyddhau o lefelau uwch o straen, felly effeithio ymddygiad, datblygiad cymdeithasol, emosiynol, a gwybyddol. At hyn, creda Felitti *et al.* (1998, dyfynnwyd yn Gontijo *et al.*, 2022), yn eu hastudiaeth bod y perthynas rhwng profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac amlygiad cynnar i adfyd, yn addasu'r ymennydd yn fiolegol, sy'n ganlynid mewn effeithiau negyddol gan gynnwys ymddygiad, seicolegol a niwral, ac yn gallu para gydol eu hoes pan maent yn digwydd yn ystod cyfnodau hanfodol o ddatblygiad yr ymennydd.

Yn ôl Dudić (2017), gan fod plant fel arfer ddim yn gwybod sut i fynegi emosiynau neu deimladau mewn ffordd eiriol, maent yn mynegi eu hemosiynau trwy ymddygiad, ac yn ceisio atal emosiynau annymunol. Felly, maent yn sicr bod ffordd gorau i brofi'r teimladau hyn yw trwy chwarae. Mae'r farn hyn yn cyd-daro gyda'r safbwyntiau damcaniaethol Piaget a Vygotsky (dyfynnwyd yn Viejo, Ortega-Ruiz a Romera, 2018, t.10-11), a Winnicot (dyfynnwyd yn Lenormand, 2018), gan eu bod yn sicr bod chwarae yn meddu rôl mewn meddwl creadigol a datblygiad gwybyddol, ac yn cymryd rhan fel dull seicotherapiwtig yn y blynyddoedd cyntaf o datblygiad seicopatholeg.

Serch hynny, dadleua Cowan (2023) bod angen i'r amgylchedd chwarae gael ymarferwyr cefnogol sy'n caniatáu'r plant i archwilio, ac os nad oes digonedd o gefnogaeth i'r plentyn, mae hon hefyd gallu rhwystro datblygiad y plentyn, yn enwedig os mae hanes o trauma neu adawiad. Cydnabyddai Colliver a Veraksa (2021) gyda'r farn hyn, gan ddatgan y pwysigrwydd o gydnabyddiaeth o ddatblygiad cymdeithasol ac emosiynol plant gan ymarferwyr, ac yn credu bod angen i ymarferwyr deall plant fel unigolion, a'r defnyddiad o fodelau a fframweithiau sythweledol er mwyn cefnogi'r dysgu plant trwy chwarae.

Gan ystyried y wybodaeth hon, bydd y cyflogwr yn sicrhau'r datblygiad proffesiynol y therapyddion a fydd yn cael eu cyflogi, gan ddarparu cyrsiau a hyfforddiant priodol yn aml i sefydlu sefydliad ansawdd uchel, a bod cymwyseddau penodol yn cael eu bodloni (Cyngor Gofal Cymru, 2016).

I farchnata'r busnes hwn, bydd y gwasanaeth yn cael ei hysbysu ar gyfryngau cymdeithasol, a phosteri mewn llefydd iechyd fel meddygfeydd a chlinigau, a sefydliadau addysg a gofal, fel ysgolion a meithrinfeydd.

Yn ôl Shen *et al.* (2020), wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol ar gyfer hysbysu, mae hwn yn darparu cyfleoedd i adeiladu perthnasoedd cwsmeriaid, ac yn effeithlon ac effeithiol. Dyweda Lee (2018) a Chen a Huang (2020), rheswm bod y defnyddiad o gyfryngau cymdeithasol mor llwyddiannus mewn marchnata, yw oherwydd mae mwy o gwsmeriaid nawr yn defnyddio'r dull hyn i ddysgu am wasanaethau, ac oherwydd y rhwydweithiau cymdeithasol haenog mawr a lluosog. awyr

Fodd bynnag, mae Siddiqi (2017) yn mynnu bod y defnyddiad o'r dull hyn i farchnata nid yw bob amser yn ddull addas. Dyweda Siddiqi oherwydd cynnydd o bobl anfoesegol a heb eu hyfforddi yn hysbysebu eu busnesau ar lein, mae nifer o bobl wedi colli ymddiried mewn busnesau hysbysed yn y modd hwn. Serch hynny, creda Moon, Jalali a Erevelles (2021) bod adolygiadau a wneir gan gwsmeriaid ar-lein yn ffactor dylanwadol ym mherfformiad busnes, ond bod nifer o adolygiadau wedi'i drin neu'n anwir.

Yn ôl Saura (2023, t.246-263), mae angen i hysbysebion fod yn berthnasol, cyfleus a chyfathrebu'n emosiynol i'r cwsmer, ac wrth ddefnyddio sgiliau celfyddydol ar bosteri, maent yn gallu dal sylw cwsmeriaid posibl, ac yn gallu darparu cysylltiad effeithiol gyda'r gynulleidfa darged. At hyn, datgan Wen *et al.* (2022) bod angen i bosteri gynnwys lliwiau, graffeg a chyferbyniad cryf er mwyn hyrwyddo'r darllenydd i ddadgodio'r wybodaeth. Fodd bynnag, dadleua Comben (2020) bod rhwystrau i ddefnyddio poster i er mwyn hysbysu, yw bod y gallant fod yn haws i golli mewn sŵn gweledol, gallu bod yn anodd cyfathrebu gwybodaeth a bod angen i ddarparu gwsmeriaid gymryd mwy o gamau i gysylltu â'r busnes.

Yn ychwanegol, i sicrhau unigrywiaeth mewn hysbysu, bydd y perchennog busnes yn ychwanegu lluniau personol ac enwau cyntaf o'r therapyddion a chyflogwyd. Mae Pfiffelmann *et al.* (2023) yn haeru wrth ychwanegu hyn, bod cynnydd mewn atyniad

sefydliadol oherwydd y golwg o werth moesegol, ond yn rhybuddio bod y dull hwn yn araf i ddatblygu. I gydymffurfio â chyfreithiau diogelu data, bydd angen dilyn arweiniad o'r Privacy and Electronic Communications Regulations (dim dyddiad) wrth hysbysu trwy gyfyngiadau cymdeithasol, a chydsyniad i ddefnyddio gwybodaeth bersonol y therapyddion gan ddefnyddio gweithrediad cadarnhaol, ac ymwybyddiaeth y byddant yn gallu tynnu'n ôl ar unrhyw adeg (Information Commisioner's Office, dim dyddiad(a)).

Er bod therapyddion chwarae yn y gymuned, does dim busnes yn debyg i 'Calonnau lachusol.' I hyrwyddo unigrywiaeth a hygyrchedd o'r amgylchedd hyn, bydd y therapyddion i gyd yn ddwyieithog trwy gyfrwng y Gymraeg. Erbyn 2023, roedd 29.7% o'r boblogaeth yng Nghymru gallu siarad Cymraeg, ac mae'r rhif hon yn cael ei amcangyfrif i godi (Llywodraeth Cymru, 2023).

Yn ôl Shahrzad Rezaeerezvan, Hossein Kareshki a Majid Pakdaman (2022), mae plant dwyieithog yn fwy tebyg i brofi problemau datblygiadol fel gwybyddol, cymdeithasol ac ieithyddol, a bod plant gydag anhwylderau emosiynol fel arfer yn dioddef o nam iaith. Mae Olivia (2019) yn cynnal y datganiad hwn, gan ddatgan bod iaith yn hollbwysig yn ystod y proses therapiwtig, a chreda Freud a Breuer (1955, t.21-47) bod iaith y tafod mam ac ail iaith y plentyn yn hanfodol i adeiladu perthnasau rhwng cleient a therapydd, wrth i'r cleient mynegi gwybodaeth anymwybodol ac ymwybodol trwy gyfathrebiad trwy iaith.

Cytuna Tannenbaum a Har (2020) gyda'r farn Freud a Breuer, gan fynegi bod tystiolaeth wedi dangos yn ddygn bod iaith tafod mam yn emosiynol arwyddocaol, wrth ddefnyddio o'r iaith, mynegi a deall emosiynau, cael ei amgylchynu i mewn i'r iaith ac amgodio atgofion, mae emosiynau wedi'i wreiddio ym mamiaith y plentyn. Fodd bynnag, rhybuddia Tannenbaum a Har oherwydd y cysylltiad emosiynol i'r famiaith y plentyn, yn achlysurol os mae'r plentyn wedi dioddef o brofiadau niweidiol yn ystod plentynod, bydd y plentyn yn defnyddio'r ail iaith i osgoi atgofion neu emosiynau trallodus, o'r enw 'effaith datodiad'.

Serch hynny, dadleua Davis, Zaki a Sargent (2024) gellir peryglu cynhwysiant oherwydd os mae anawsterau niwrolegol gyda'r plentyn, er enghraifft Awtistiaeth, mae ymchwil yn awgrymu bod llai o gyfleoedd i gynnal dwyieithrwydd i gymharu â

phlant niwro-nodweddiadol, a bod angen symudiad cryf tuag at arfer mwy cynhwysol a diwylliannol amrywiol.

Ffactor unigryw arall o'r busnes yw'r hygyrchedd gofod awyr agored ar gyfer therapi chwarae i'r plant a'u gofalwyr. Yn unol â hyn, mae Walker a Ray (2024) a Piaget (1965, dyfynnwyd yn Davis a Bergen, 2014), yn amddiffyn y buddion o chwarae therapi yn yr awyr agored, gan nodi bod yr ychwanegiad o natur yn hyrwyddo'r therapydd i ddatgelu lefel uwch o gydberthynas, gan gydnabod eu hunain a'r plentyn fel rhan o'r byd naturiol, a chynnydd o empathi i'r profiad y plentyn oherwydd maent yn gallu cysylltu gyda'r profiad y plentyn o'r natur a'u byd o'i gwmpas.

At hyn, honnodd Bronfenbrenner (1979, dyfynnwyd yn Cooley *et al.* 2020) yn ei damcaniaeth systemau ecolegol, bod ein nodweddion unigol yn cyfathrebu gyda'r amgylchedd o'n gwmpas, ac fel canlyniad o hyn, mae perthynas yn datblygu rhwng natur i gadarnhau bodolaeth gymdeithasol, gorfforol ac ysbrydol oherwydd y cysylltiad cilyddol gyda'r Ddaear. Cydsyniodd Froebel (1843, dyfynnwyd yn Blackburn, 2020), gyda'r farn Bronfenbrenner, gan haeru bod y defnyddiad o weithgareddau symbolaidd fel iaith, cerddoriaeth a chelf yn yr awyr agored yn hyrwyddo'r datblygiad cyfannol plant, tra cefnogi cysylltiad i'r amgylchedd a'r creawdwr dwyfol y Ddaear.

Yn seiliedig a'r farn Wright *et al.* (2023), mae ehangu o ddarpariaethau therapi chwarae awyr agored yn y blynyddoedd diwethaf, er mwyn manteisio ar y buddion o'r amgylchedd naturiol, fel y sbardun o ysgogiad seicolegol, synhwyrol ac esthetig. Mae'r National Health Service Confederation (2024) yn cadarnhau'r datganiad hwn, gan nodi yn ei ymateb i adroddiad y Senedd 'Children, Young People and Education Committee' (dim dyddiad) bod therapi yn yr awyr agored yn mynegi plant i archwilio eu teimladau a meddyliau trwy gyfathrebu gyda natur, ond yn rhybuddio bod cyfyngiadau ariannol gallu bod yn rhwystr i'r fath hyn o therapi chwarae yng Nghymru.

Gan ystyried hyn, mae'r Llywodraeth Cymru yn cynnig eithriad o dalu ardrethi busnes tan Ebrill 2025 (*Llywodraeth Cymru*, dim dyddiad), ac mae'r Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn rhoi cryn dipyn o gymorth i fusnesau newydd gan gynnwys benthyciadau cychwyn a chymorth ariannol (GOV.UK, dim dyddiad). At hyn, mae'r Gronfa Gymunedol yn cynnig rhwng £10,000 a £20,000 y flwyddyn i ardaloedd a

phrosiectau sy'n adeiladu perthnasau tŷ fewn ac ar draws cymunedau, ac i gefnogi pobol i gyrraedd eu potensial llawn (Play Wales, 2022). Yn ychwanegol yng Nghymru mae'r Development Bank Wales (*Llywodraeth Cymru*, dim dyddiad(a), yn cefnogi busnesau newydd gan gynnig help gyda recriwtio staff, marchnata, prynu adnoddau a phrynu eiddo newydd gyda benthyciadau busnes.

Fodd bynnag, dyweda Šebestová (2020, t.97-99) bod 90% o entrepreneuriaid yn cau eu busnesau cyn iddynt gyrraedd pum mlynedd o fasnachu oherwydd diffyg buddsoddiadau tymor hir ac anufuddhau i egwyddorion cyfalafol.

Fel y crybwyllwyd gan Barringer ac Ireland (2022, t.264-266), mae creu diwylliant moesegol cryf o fewn y gweithlu yn hollbwysig mewn entrepreneuriaeth, gan bob person sy'n ymwneud â'r busnes, gan greu cod ymddygiad, a gan arwain trwy esiampl. Cyd-darodd Oncioiu (2018, t.24-30) gyda'r safbwynt hyn, gan haeru bod angen i'r entrepreneur dal nodweddion moesegol, fel safbwyntiau moesol urddasol, hyrwyddo menter a disgyblaeth gwaith er mwyn cydymffurfio â normau moesol a moesegol. Adrodda Barringer ac Ireland (2019, t.243-244) er bod 41% o weithwyr wedi arsylwi camymddwyn yn y gweithle, wnaeth 63% adroddi'r ymddygiad i'r rheolwr. Maent yn amlygu'r ystadegau hyn i dangos y gwerth mai entrepreneuriaid moesegol yn dal, gan fod yn gefnogol, ymddiriedus a thryloywder.

Mae'r lles a diogelwch y plant yn hollbwysig, ac yn gyfrifoldeb pawb i gyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu (Social Care Wales, 2024). A chan y budd y busnes hefyd yn cynnwys oedolion agored i niwed, o dan y Social Services and Well-Being (Wales) Act 2014, o dan adran 128, maent yn datgan os mae unrhyw achos rhesymol i amau bod unrhyw oedolyn at risg, rhaid adrodd hyn i'r awdurdod lleol (Legislation.gov, dim dyddiad).

Gan ystyried hyn, bydd yr entrepreneur yn ysgrifennu polisïau a gweithdrefnau amddiffyn plant, er mwyn cadw plant yn ddiogel, i bob gweithwyr bod yn ymwybodol o sut i ymateb i bryderon amddiffyn plant, gan gynnwys ymrwymiad y busnes i gadw plant yn ddiogel (National Society for the Prevention of Cruelty to Children, 2023). At hyn, mae'n bwysig amlygu bod deddfwriaeth yng Nghymru angen unrhyw gyrff cyhoeddus i ddiogelu pawb rhag niwed, ac er mwyn rhoi hyder i wasanaethau a busnesau gweithredu yn y modd cywir a pherfformio mewn dulliau diogel (*Llywodraeth Cymru*, 2022, t.3-4). Mae diogelwch yn hawl sylfaenol plant, fel y nodir

yn erthygl 19 o'r Crynodeb o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn:

“Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn cael y gofal priodol, a'u cadw rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod gaf eu rhieni neu unrhywun arall sy'n edrych ar eu hôl.”

I grynhoi, gan ystyried y wybodaeth uchod, mae'r strategaeth fusnes hyn yn hollbwysig i'r datblygiad cyfannol y plentyn, gan gynnwys lles ac iechyd meddwl. Gan ymestyn cefnogaeth i'r gofalmwyr hefyd, mae hwn yn sicrhau amddiffyniad cwmpasu i'r plant sy'n fregus ac wedi cael dechrau cain mewn bywyd, sy allu cael effeithiau andwyol ar y plentyn. Wrth archwilio, does dim busnes arall fel hyn yng Nghymru, felly mae un yn nodi angen i'r fath hyn o therapi i blant a'u theuluoedd yn y gymuned.

Rhestr Gyfeirio

Anida Dudić (2017) "Play Therapy: Therapeutic Games for Children With Developmental Disabilities," *Društvene i humanističke studije (Online)*, 2(1 (2)), tt. 405–424.

Barringer, B.R. and Ireland, R.D. (2019) *Entrepreneurship : successfully launching new ventures*. Sixth edition. Harlow, England: Pearson.

Barringer, B.R. and Ireland, R.D. (2022) *Entrepreneurship : successfully launching new ventures*. Updated sixth edition. Harlow, England: Pearson.

Blackburn, C. (2020) "The people in the purple shirts': Froebelian insights to a Singing Medicine project in a children's hospital," *Journal of early childhood research : ECR*, 18(3), tt. 287–305. Ar gael yn:

<https://doi.org/10.1177/1476718X20935158>

Blalock, S.M., Lindo, N. a Ray, D.C. (2019a) "Individual and Group Child-Centered Play Therapy: Impact on Social-Emotional Competencies," *Journal of counseling and development*, 97(3), tt. 238–249. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1002/jcad.12264>

Blalock, S.M., Lindo, N.A., Haiyasoso, M., Morman, M.K. (2019) "Child-Centered Play Therapists' Experiences of Conducting Group Play Therapy in Elementary Schools," *The Journal for specialists in group work*, 44(3), tt. 184–203. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1080/01933922.2019.1637985>

Breuer, J. a Freud, S. (1955) *Studies on hysteria*. In J. Strachey (Ed. and Trans.), *The standard edition of the complete psychological works of Sigmund Freud*. London, UK: Hogarth Press.

Bronfenbrenner, U. (1979) *The ecology of human development*. Harvard University Press, Cambridge, MA.

Brown, T. a Lynch, H. (2023) "Children's Play–Work Occupation Continuum: Play-Based Occupational Therapy, Play Therapy and Playwork," *Canadian journal of occupational therapy* (1939), 90(3), tt. 249–256. Ar gael yn:

<https://doi.org/10.1177/00084174221130165>

Chen, L.-C. a Huang, L.-C. (2020) "The Motivation, Strategies, and Barriers for Adopting Social Media Marketing in the Flower Retailing Business," *Horticulturae*, 6(4), tt. 80-. Ar gael yn: <https://doi.org/10.3390/horticulturae6040080>

Cheng, Y.-J. and Ray, D.C. (2016) "Child-Centered Group Play Therapy: Impact on Social-Emotional Assets of Kindergarten Children," *The Journal for specialists in group work*, 41(3), tt. 209–237. Ar gael yn:

<https://doi.org/10.1080/01933922.2016.1197350>

Comben, J (2020) *The Pros and Cons of Poster Advertising*. Ar gael yn:

<https://www.linkedin.com/pulse/pros-cons-poster-advertising-jane-comben>

(Cyrchwyd 13 Chwefror 2024)

Conn, A.-M., Jee, S.H., Briggs, R., Szilagyi, M.A., Manly, J.T., Szilagyi, P.G. (2018) "Parental Perspectives of Screening for Adverse Childhood Experiences in Pediatric Primary Care," *Families systems & health*, 36(1), tt. 62–72. Ar gael yn:

<https://doi.org/10.1037/fsh0000311>

Cooley, S.J., Jones, C.R., Kurtz, A., Robertson, N. (2020) "'Into the Wild': A meta-synthesis of talking therapy in natural outdoor spaces," *Clinical psychology review*, 77, tt. 101841–101841. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1016/j.cpr.2020.101841>

Cowan, R. (2023) "The importance of play in early childhood education: Psychoanalytic, attachment and development perspectives", *International journal of psychoanalysis*, 104(6), tt. 1132–1135. Ar gael yn:

<https://doi.org/10.1080/00207578.2023.2191681>

Cyngor Gofal Cymru (2016) *Continuing Professional Development Principles for the early years and childcare workforce in Wales*. Ar gael yn:

<https://socialcare.wales/cms-assets/documents/Early-years-CPD-principles.pdf>

(Cyrchwyd 13 Chwefror 2024)

Davis, D.R. a Bergen, D. (2014) "Relationships Among Play Behaviors Reported by College Students and Their Responses to Moral Issues: A Pilot Study," *Journal of research in childhood education*, 28(4), tt. 484–498. Ar gael yn:

<https://doi.org/10.1080/02568543.2014.944721>

Davis, R., Zaki, F.B.M. a Sargent, L. (2024) "Autism and bilingualism: A thematic analysis of practitioner perspectives in the United Kingdom," *International journal of language & communication disorders*, 59(1), tt. 205–222. Ar gael yn:

<https://doi.org/10.1111/1460-6984.12939>

Emilia, C. (2023) "Art therapy, occupational and play therapy used as multidisciplinary tools for prevention and early recovery for children and adolescents at risk of developing mental health problems and juvenile deliverance," *European psychiatry*, 66(S1), tt. S817–S818. Ar gael yn:

<https://doi.org/10.1192/j.eurpsy.2023.1733>

Felitti, J.V., Anda, R.F., Nordenberg, D., Williamson, D.F., Spitz, A.M., Edwards, V., Koss, M.P., Marks, J.S. (1998) "Relationship of Childhood Abuse and Household Dysfunction to Many of the Leading Causes of Death in Adults: The Adverse Childhood Experiences (ACE) Study", *American Journal of Preventive Medicine*, 14(4), tt.245-258, Ar gael yn: [https://doi.org/10.1016/S0749-3797\(98\)00017-8](https://doi.org/10.1016/S0749-3797(98)00017-8)

Francis, G., Deniz, E., Torgerson, C., & Toseeb, U. (2022) "Play-based interventions for mental health: A systematic review and meta-analysis focused on children and adolescents with autism spectrum disorder and developmental language disorder" *Autism & developmental language impairments*, 7. Ar gael yn:

<https://doi.org/10.1177/23969415211073118>

Froebel, F. (1843) *Mother's Songs, Games and Stories: Fröbel's "Mutter- und Kose-Lieder*. Dresden: Andesite Press.

Gontijo, M.L., Moreira, J.M., Silva, T.R., Alves, C.R.L. (2022) "Impact of adverse childhood experiences (ACE) on the development of 18-months-old children," *Journal of affective disorders reports*, 10, tt. 100401-. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1016/j.jadr.2022.100401>

GOV.UK (Dim dyddiad) *Grants for new businesses*. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/search/all?keywords=grants+for+new+businesses&order=relevance> (Cyrchwyd 16 Chwefror 2024)

Hays-Grudo, J. a Morris, A.S. (2020) *Adverse and protective childhood experiences : a developmental perspective*. Washington, District of Columbia: American Psychological Association.

Heerman, W.J., Samuels, L.R., Peña, T.G., van Wyk, C., Mayberry, L.S. (2022) "Family resilience and childhood obesity among children exposed to adverse childhood experiences in a national survey," *Obesity science & practice*, 8(1), tt. 3–11. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1002/osp4.497>

Hertler, S., Cabeza de Baca, T., Penaherrera-Aguirre, M., Fernandes, H.B.F., Figueredo, J. (2021) "Life History Evolution Forms the Foundation of the Adverse Childhood Experience Pyramid," *Evolutionary psychological science*, 8(1), tt. 89–104. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1007/s40806-021-00299-5>

Huertas-Abril, C.A. a Gómez-Parra, M.E. (2020) "An Interdisciplinary Approach to Develop Linguistic Abilities in Bilingual Education," in *International Perspectives on Modern Developments in Early Childhood Education*. IGI Global, tt. 40–57. Ar gael yn: <https://doi.org/10.4018/978-1-7998-2503-6.ch003>

Hughes, P.M., Graaf, G., DeJong, N.A., Thomas, K.C. (2023) "Emotional Support Among Parents of Children With Adverse Childhood Experiences," *Journal of pediatric health care*, 37(5), tt. 557–565. Ar gael yn:

<https://doi.org/10.1016/j.pedhc.2023.05.003>

Iechyd Cyhoeddus Cymru (2019) *A National Survey- Knowledge and awareness of Adverse Childhood Experiences (ACEs) in the public service workforce in Wales*. Ar gael yn: <https://phw.nhs.wales/news/new-survey-shows-both-good-welsh-public-sector-awareness-of-adverse-childhood-experiences-aces-and-opportunities-for-improvement/knowledge-and-awareness-of-adverse-childhood-experiences-in-the-public-service-workforce-in-wales/> (Cyrchwyd 9 Chwefror 2024)

Iechyd Cyhoeddus Cymru (Dim dyddiad) *Responding to adverse childhood experiences- An evidence review*. Ar gael yn:

<https://phw.nhs.wales/news/responding-to-adverse-childhood-experiences-an-evidence-review/> (Cyrchwyd 9 Chwefror 2024)

Information Commissioner's Office (Dim dyddiad(a)) *Marketing*. Ar gael yn:

<https://ico.org.uk/for-organisations/advice-for-small-organisations/frequently-asked-questions/marketing/> (Cyrchwyd 13 Chwefror 2024)

Information Commissioner's Office (Dim dyddiad(b)) *Guide to Privacy and Electronic Communications Regulations*. Ar gael yn: <https://ico.org.uk/for-organisations/direct-marketing-and-privacy-and-electronic-communications/guide-to-pecr/> (Cyrchwyd 13

Chwefror 2024)

Information Commissioner's Office (Dim dyddiad) *Encryption and data storage*. Ar gael yn: <https://ico.org.uk/for-organisations/uk-gdpr-guidance-and-resources/security/encryption/encryption-and-data-storage/> (Cyrchwyd 12 Chwefror

2024)

Koukourikos, K., Tsaloglidou, A., Tzehe, L., Iliadis, C., Frantzana, A., Katsimbeli, A., & Kourkouta, L. (2021) "An Overview of Play Therapy". *Materia socio-medica*, 33(4), tt.293–297. Ar gael yn: <https://doi.org/10.5455/msm.2021.33.293-297>

Lambert, M. (ed.) (2019) *Practical research methods in education : an early researcher's critical guide*. Abingdon, Oxon ; Routledge.

Legislation.gov.Uk (2018) *Data Protection Act (2018)*. Ar gael yn: <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2018/12/contents#top> (Cyrchwyd 12 Chwefror 2024)

Legislation.gov.uk (Dim dyddiad) *Social Services and Well-Being (Wales) Act 2014*. Ar gael yn: <https://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/section/128> (Cyrchwyd 17 Chwefror 2024)

Lenormand, M. (2018) "Winnicott's theory of playing: a reconsideration," *International journal of psychoanalysis*, 99(1), tt. 82–102. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1080/00207578.2017.1399068>

Llywodraeth Cymru (2021) *Crynodeb o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn*. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-11/poster-crynodeb-uncrc.pdf> (Cyrchwyd 17 Chwefror 2024)

Llywodraeth Cymru (2022) *Social Services and Well-being (Wales) Act 2014- Working Together to Safeguard People: Code of Safeguarding Practice for individuals, groups and organisations offering activities or services to children and adults in Wales*. Ar gael yn: https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2022-01/working-together-to-safeguard-people--code-of-safeguarding-practice_0.pdf (Cyrchwyd 17 Chwefror 2024)

Llywodraeth Cymru (2023) *Data am y Gymraeg o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth: Ebrill 2022 i Fawrth 2023*. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/data-am-y-gymraeg-or-arolwg-blynyddol-or-boblogaeth-ebrill-2022-i-fawrth-2023> (Cyrchwyd 13 Chwefror 2024)

Llywodraeth Cymru (Dim dyddiad) (a) *Development Bank Wales- Growing a business*. Ar gael yn: <https://developmentbank.wales/business-need/growing-business> (Cyrchwyd 16 Chwefror 2024)

Llywodraeth Cymru (Dim dyddiad) *Cymorth Busnes i Ddarparwyr Gofal Plant a Gwaith Chwarae*. Ar gael yn: <https://businesswales.gov.wales/cy/cymorth-busnes-i-ddarparwyr-gofal-plant-a-gwaith-chwarae> (Cyrchwyd 16 Chwefror 2024)

Manalew, W.S., Tennekoon, V.S., Lee, J., O'Connell, B., Quinn, M. (2022) "Adversity in Infancy and Childhood Cognitive Development: Evidence From Four Developing Countries," *International journal of public health*, 67, tt. 1604503–1604503. Ar gael yn: <https://doi.org/10.3389/ijph.2022.1604503>

Mohammadi, F., Oshvandi, K., Shamsei, F., Khodaveisi, M., Khazaei, S., Massoumi, S.Z. (2023) "Child exposure to domestic violence, substance dependence and suicide resilience in child laborers," *BMC public health*, 23(1), tt. 467–467. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1186/s12889-023-15367-7>

Moon, S., Jalali, N. a Erevelles, S. (2021) "Segmentation of both reviewers and businesses on social media," *Journal of retailing and consumer services*, 61, tt. 102524-. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1016/j.jretconser.2021.102524>

National Society for the Prevention of Cruelty to Children (2023) *Writing safeguarding policies and procedures*. Ar gael yn: <https://learning.nspcc.org.uk/safeguarding-child-protection/writing-a-safeguarding-policy-statement> (Cyrchwyd 17 Chwefror 2024)

Newby, J. (2023) *Real healing takes place when communities work together*. Ar gael yn: <https://www.thetelegraph.com/opinion/article/real-healing-takes-place-communities-work-together-18260470.php> (Cyrchwyd 9 Chwefror 2024)

NHS Confederation (2024) *Welsh NHS Confederation response to the Children, Young People and Education Committee consultation on the Residential Outdoor Education (Wales) Bill*. Ar gael yn: <https://www.nhsconfed.org/publications/welsh-nhs-confederation-response-children-young-people-and-education-committee> (Cyrchwyd 16 Chwefror 2024)

Oliva, M.E. (2019) "A healing journey of the bilingual self: In search of the language of the heart," *Journal of ethnic & cultural diversity in social work*, 28(3), tt. 334–347. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1080/15313204.2017.1384946>

Oncioiu, I. (ed.) (2018) *Ethics and decision-making for sustainable business practices*. Hershey, Pennsylvania: Business Science Reference. Ar gael yn: <https://doi.org/10.4018/978-1-5225-3773-1>

Pfiffelmann, J., Pfeuffer, A., Dens, N., Soulez, S. (2023) "Unique... like everyone else: effects and mechanisms of personalization appeals in recruitment advertising," *International journal of advertising*, ahead-of-print(ahead-of-print), tt. 1–42. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1080/02650487.2023.2203577>

Piaget, J. (1965) *The moral judgement of the child*. New York: Norton.

Play Wales (2022) *Funding: National Lottery Awards for All Wales*. Ar gael yn: https://play.wales/news_category/funding-national-lottery-awards-for-all-wales/ (Cyrchwyd 16 Chwefror 2024)

Ray, D.C., Burgin, E., Gutierrez, D., Ceballos, P., Lindo, N.A. (2022) "Child-centered play therapy and adverse childhood experiences: A randomized controlled trial," *Journal of counseling and development*, 100(2), tt. 134–145. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1002/jcad.12412>

Rides At The Door, M. a Shaw, S. (2023) "The Other Side of the ACEs Pyramid: A Healing Framework for Indigenous Communities," *International journal of environmental research and public health*, 20(5), tt. 4108-. Ar gael yn: <https://doi.org/10.3390/ijerph20054108>

Saura, J.R. (ed.) (2023) *Big data marketing strategies for superior customer experience*. First edition. Hershey, PA: Business Science Reference, IGI Global.

Šebestová, J. (2020) *Developing entrepreneurial competencies for start-ups and small business*. Edited by J. Šebestová. Hershey, Pennsylvania: IGI Global. Ar gael yn: <https://doi.org/10.4018/978-1-7998-2714-6>

Senedd Cymru (Dim dyddiad) *Children, Young People and Education Committee*. Ar gael yn: <https://senedd.wales/committees/children-young-people-and-education-committee/> (Cyrchwyd 16 Chwefror 2024)

Shahrzad Rezaeerezvan, Hossein Kareshki a Majid Pakdaman (2022) "The Effect of Cognitive–Behavioral Play Therapy on Improvements in Expressive Linguistic Disorders of Bilingual Children," *Frontiers in psychology*, 12. Ar gael yn: <https://doi.org/10.3389/fpsyg.2021.626422>

Shen, C., Luong, T., Ho, J., Djailani, I. (2020) "Social media marketing of IT service companies: Analysis using a concept-linking mining approach," *Industrial marketing management*, 90, tt. 593–604. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1016/j.indmarman.2019.11.014>

Siddiqi, M. (2017) "Social media as sales pitch: The new wave of direct sellers is using the Internet to promote, network and move product. But if they don't do it right, the end of a friendship is just a click away," *Globe and mail*.

Social Care Wales (2024) *Gweithdrefnau Diogelu Cymru*. Ar gael yn: <https://www.safeguarding.wales/en/chi-i/chi-i-c2/c2-p3/> (Cyrchwyd 16 Chwefror 2024)

Stutey, D.M., Adeyiga, O., Luke-Browning, L.V., Wubbolding, R.E. (2020) "Group Reality Play Therapy," *International journal of play therapy*, 29(4), tt. 237–248. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1037/pla0000132>

Tannenbaum, M. a Har, E. (2020) "Beyond basic communication: The role of the mother tongue in cognitive-behavioral therapy (CBT)," *The international journal of bilingualism : cross-disciplinary, cross-linguistic studies of language behavior*, 24(4), tt. 881–892. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1177/1367006920902522>

Uned Atal Trais (2024) *Adverse Childhood Experiences (ACE's)*. Ar gael yn: <https://www.violencepreventionwales.co.uk/research-evidence/adverse-childhood-experiences-aces> (Cyrchwyd 9 Chwefror 2024)

Viejo, C., Ortega-Ruiz, R. a Romera, E. (2018) "Children's Play and Development," in *Early Childhood Education From an Intercultural and Bilingual Perspective*, tt. 131–146. Ar gael yn: <https://doi.org/10.4018/978-1-5225-5167-6.ch009>

Wang, X., Chen, W., Wen, L., Yang, X., Chen, B., Zhang, T., Zang, C., Du, C., Hua, J., Tang, Q., Hong, X., Liu, W., Xie, C., Ma, H., Yu, X., Chen, D., Guan, L. (2023) "Adverse childhood experiences in offspring living with parental mental illness: a controlled study from China," *Journal of mental health (Abingdon, England)*, 32(3), tt. 541–550. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1080/09638237.2022.2091765>

Wen, L., Jingjing, W., Chen, W., Luyu, S. (2022) "Research on the Visual Imagery of Posters Based on the Culture Code Theory of Design," *Frontiers in psychology*, 13. Ar gael yn: <https://doi.org/10.3389/fpsyg.2022.861366>

Wright, T., Blakeman, V., Andrew, T., Labovitch, S. (2023) "A qualitative evaluation of an outdoor arts therapies group," *International journal of art therapy*, ahead-of-print(ahead-of-print), tt. 1–10. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1080/17454832.2023.2229893>

Wurster, H.E., Sarche, M., Trucksess, C., Morse, B., Biringen, Z. (2020) "Parents' adverse childhood experiences and parent-child emotional availability in an American Indian community: Relations with young children's social-emotional development," *Development and psychopathology*, 32(2), tt. 425–436. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1017/S095457941900018X>

Wyse, D. et al. (eds) (2017) *The BERA/SAGE handbook of educational research*. London: Sage.

Xu, Y., Jedwab, M., Levkoff, S.E. (2023) "The Negative Effects of Adverse Childhood Experiences (ACEs) on Behavioral Problems of Children in Kinship Care: The Protective Role of Kinship Caregivers' Mental Health," *Journal of emotional and behavioral disorders*, 31(1), tt. 41–53. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1177/10634266221076475>

Zarra-Nezhad, M., Pakdaman, F. a Moazami-Goodarzi, A. (2023) "The effectiveness of child-centered group play therapy and narrative therapy on preschoolers' separation anxiety disorder and social-emotional behaviours," *Early child development and care*, 193(6), tt. 841–853. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1080/03004430.2023.2167987>